Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.06.2021

## COVID-19: Oedi cyn symud i Rybudd Lefel 1 wedi'i gadarnhau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y symudiad llawn i gyfyngiadau Rhybudd Lefel 1 wedi cael ei oedi tan o leiaf yr adolygiad nesaf a fydd yn digwydd ar 15 Gorffennaf 2021. I ddarllen y datganiad ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-2020

Ceir gwybodaeth am y cyfyngiadau presennol ar:

https://llyw.cymru/cyfyngiadau-cyfredol

## COVID-19: Profion Llif Unffordd(LFTs) a diweddariad brechu

Mae cynnydd mewn profion a chynyddu cyfran y bobl sy'n cael eu brechu yn hanfodol er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel a lleihau effaith COVID-19. Bellach gall pob oedolyn dros 18 oed gael ei frechu. Chwaraewch eich rhan trwy annog eich staff i dderbyn y cynnig. Gellir archebu apwyntiadau trwy ffonio 0300 084 0004 neu trwy fynd i:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/

Bydd sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn profi eu hunain yn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu. Anogir ymwelwyr i ddod â LFTs gyda nhw a phrofi eu hunain cyn ac yn ystod eu hymweliadau. Dylid annog staff – yn enwedig y rhai mewn rolau sy'n wynebu cwsmeriaid – i brofi eu hunain yn rheolaidd. Mae gwybodaeth ar sut i gael profion llif unffordd ar gael yma:

https://llyw.cymru/cael-profion-llif-unffordd-covid-19-cyflym-os-nad-oes-gennych-symptomau

## COVID-19: Gorau chwarae cyd-chwarae!

Gyda penwythnos prysur o'n blaenau (C'mon Cymru!) – gall busnesau lletygarwch yn arbennig wneud eu rhan i gadw staff, cwsmeriaid a'r gymuned yn ddiogel wrth ffocysu ar:

- AWYRU – CADW COFNODION – MYGYDAU GWYNEB – CADW PELLTER CYMDEITHASOL

I gael y cyngor, y canllawiau a'r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a'ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

## ARIANNU: VisitBritain: lansio cronfa gymorth i ddigwyddiadau busnes domestig

Bydd y Gronfa Cymorth Domestig (Domestic Support Fund) yn rhoi cymorth ariannol i sefydliadau nid-er-elw sy'n cynnal digwyddiadau busnes domestig rhwng 21 Mehefin ac 17 Rhagfyr 2021. Gall sefydliad digwyddiadau wneud cais am £30 y cynrychiolydd (arian parod yn cynnwys TAW) hyd at uchafswm o £15,000. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3xQDldH

https://www.visitbritain.org/domestic-support-fund

## ARIANNU: Gall CThEM helpu tuag at gostau gweithgareddau gwyliau haf i blant

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn atgoffa teuluoedd sy'n gweithio y gallant ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth i helpu i dalu am gostau gofal plant dros yr haf. Mae modd defnyddio Gofal Plant Di-dreth – tâl atodol gofal plant i rieni sy'n gweithio – er mwyn helpu i dalu am glybiau gwyliau achrededig, gwarchodwyr plant neu weithgareddau chwaraeon. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3zX7iL9

## TRETH: P11D – cwblhewch eich ffurflen 2020 i 2021

Mae gennych tan 6 Gorffennaf 2021 i roi gwybod am dreuliau a buddion a ddarparwyd gennych i bob cyflogai. I gael gwybod beth mae'n rhaid i chi ei nodi ar ffurflenni P11D a P11D(b) i ddatgan treuliau, buddion a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A eich cwmni, a sut i lenwi eich ffurflen P11D 2020 i 2021, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/how-to-complete-forms-p11d-and-p11db.cy

## DYSGU: "Helpu Gwesteion Ac Ymwelwyr i Fod Yn Fwy Diogel Yn Yr Awyr Agored – Holwch Yr Arbenigwyr" 1 Gorffennaf 2021

Ar ddydd Iau 1 Gorffennaf 2021, bydd Croeso Cymru yn cynnal sesiwn rhad ac am ddim awr o hyd ar-lein cyn cyfnod gwyliau'r haf. Bydd busnesau'n cael cyfle i glywed gan yr RNLI a Adventure Smart – bydd siaradwyr hefyd yn ateb cwestiynau mewn sesiwn holi ac ateb. I ymuno, archebwch eich lle erbyn 3:00pm dydd Mawrth 29 Mehefin 2021. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin a bydd pawb sy'n bresennol hefyd yn derbyn deunydd dilynol ar ôl y sesiwn. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/3jeaEUi

## IECHYD: Gwasanaeth GIG 111 Cymru

Mae gwasanaeth GIG 111 Cymru wedi ei lansio yng Ngogledd Cymru ac mae'n bosibl bellach i ffonio 111 i gael mynediad am ddim at ofal brys y tu allan i oriau a chefnogaeth ac arweiniad meddygol rownd y cloc. Mae'n helpu cleifion i gael yr wybodaeth, arweiniad a'r driniaeth gywir yn y lle cywir ar yr amser cywir. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/GIG111Cymru

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru